



Ardrethi Busnes

Fframwaith Polisi ar gyfer Rhyddhad Gorfodol a Dewisol

RHEOLI FERSIWN

Fersiwn	Dyddiad Fersiwn	Awdur	Disgrifiad
1	31/05/2016	David Barnes	Cyflwyniad i'r fframwaith diwygiedig (i ddod i rym o 2017-18)
2	20/02/2017	David Barnes	Fframwaith Diwygiedig Drafft (i ddod i rym o 2017-18) sy'n darparu rhyddhad ardrethi ychwanegol i Elusennau bychain a sefydliadau Gwirfoddol a Chymunedol, sy'n defnyddio safle bach sydd â gwerth ardrethol hyd at £6,000.

CYNNWYS

Adran	Tudalen
Cyflwyniad	3
Crynodeb o Fframwaith Deddfwriaethol	3
Rhyddhad Ardrethi Gorfodol	4
Rhyddhad Ardrethi Dewisol	4-5
Y Broses Ymgeisio	6
Y Broses Gyfathrebu	6

1.0 Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r ddogfen hon yn nodi fframwaith y Cyngor ynglŷn â dyfarnu Rhyddhad Ardrethi Gorfodol a/neu Ddewisol ar gyfer Ardrethi Busnes.
- 1.2 Er yr ystyrir pob cais yn unigol, mae'r ddogfen hon yn darparu fframwaith lle gall swyddogion ddefnyddio awdurdod dirprwyedig i ymdrin â thalwyr ardrethi busnes yn gyson ac yn deg.
- 1.3 Mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno cynlluniau rhyddhad yn gyson ar gyfer categorïau penodol o dalwyr ardrethi, er enghraifft y Cynllun Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach a Chynllun Rhyddhad Manwerthu Cymru. Nid bwriad y fframwaith hwn yw cwmpasu cynlluniau o'r fath, gan fod y meini prawf cymhwyso yn cael eu gosod gan Lywodraeth Cymru.
- 1.4 Dyfernir Rhyddhad Ardrethi Dewisol ar gyfer sefydliadau Elusennol, Gwirfoddol a sefydliadau 'Nid er Elw' yn barhaus, yn amodol ar rybudd o 12 mis ac un flwyddyn ariannol lawn, o leiaf, os effeithir ar unrhyw dalwr ardrethi gan newid yn y polisi fframwaith hwn yn y dyfodol. Mewn geiriau eraill, os na roddir rhybudd cyn 31 Mawrth am newid sy'n arwain at gynnydd yn y swm sy'n daladwy, bydd y rhyddhad yn parhau ar yr un lefel am ddwy flynedd arall.
- 1.5 Mae'r fframwaith polisi hefyd yn ymdrin â dyfodiad sefydliadau newydd sydd wedi eu strwythuro a'u sefydlu i fod 'nid er elw'. Mae'r fframwaith yn cyflwyno mwy o eglurder ynglŷn â rheolau cymhwyso ar gyfer Cwmnïau Buddiannau Cymunedol a Mentrau Cymdeithasol i ddangos eu bod yn bodoli fel rhai 'nid er elw', lle defnyddir y safle at ddibenion elusennol, haelionus neu grefyddol, neu'n ymwneud â hamdden, addysg, lles cymdeithasol, gwyddoniaeth, llenyddiaeth neu gelfyddyd gain.

2.0 Crynodeb o Fframwaith Deddfwriaethol

- 2.1 Mae'r gyfraith sy'n ymwneud â Rhyddhad Ardrethi Gorfodol a/neu Ddewisol wedi ei chynnwys yn Neddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, yn benodol:
- 2.2 **Adran 43**, sy'n ymwneud ag eiddo wedi ei feddiannu ac sydd angen Rhyddhad Ardrethi Gorfodol lle mae'r talwr ardrethi yn elusen neu'n ymddiriedolwr ar gyfer elusen, a defnyddir yr eiddo yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddibenion elusennol. Mae'r adran hon hefyd yn cynnwys darpariaethau ar gyfer Clybiau Chwaraeon Amatur Cymunedol (CASC).
- 2.3 **Adrannau 47 a 48**, sy'n caniatáu Rhyddhad Ardrethi Dewisol i elusennau a sefydliadau eraill o fath penodol. Mae Adran 47 hefyd yn cynnwys darpariaethau ar gyfer Clybiau Chwaraeon Amatur Cymunedol.
- 2.4 **Adran 69** Deddf Lleoliaeth 2011 – mae'r adran hon yn diwygio Adran 47 i ganiatáu awdurdodau lleol i roi rhyddhad dewisol mewn unrhyw amgylchiadau, os yw'n rhesymol i'r awdurdod wneud hynny, gan roi ystyriaeth i fuddiannau talwyr treth y cyngor yn ei ardal.

3.0 Rhyddhad Ardrethi Gorfodol

- 3.1 Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer Rhyddhad Ardrethi Gorfodol, mae'n rhaid i sefydliad beidio â chael ei redeg er elw ac mae'n rhaid defnyddio'r eiddo y mae'n ei feddiannu yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddibenion elusennol, neu ddibenion Clwb Chwaraeon Amatur Cymunedol. Os yw'r eiddo'n wag mae'n rhaid iddo ymddangos fel ei fod yn mynd i gael ei ddefnyddio'n gyfan gwbl neu'n bennaf at ddibenion elusennol pan fydd yn cael ei ddefnyddio nesaf.
- 3.2 Dyma'r sefydliadau sydd fel arfer yn gymwys ar gyfer Rhyddhad Ardrethi Gorfodol: elusennau a gofrestrwyd dan Adran 3 Deddf Elusennau 1983; y rheiny sydd wedi eu heithrio o gofrestriad o'r fath; siopau elusen, os y'u defnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer gwerthu nwyddau a roddwyd i'r elusen, a'r elw o'r gwerthiant yn cael ei ddefnyddio ar gyfer yr elusen yn unig; Clybiau Chwaraeon Amatur Cymunedol.
- 3.3 Mae hawl i'r Rhyddhad Ardrethi Gorfodol ar lefel o 80% o'r ardrethi gros sy'n daladwy. Ariennir y gost o ddyfarnu Rhyddhad Ardrethi Gorfodol yn gyfan gwbl gan Lywodraeth Cymru.

4.0 Rhyddhad Ardrethi Dewisol – Grwpiau Elusennol, grwpiau Gwirfoddol, clybiau Chwaraeon a sefydliadau sydd 'Nid er Elw'

- 4.1 Mewn achosion pan fo talwyr ardrethi yn Elusennau cofrestredig neu wedi eu cofrestru fel Clwb Chwaraeon Amatur Cymunedol ac felly â'r hawl i 80% o Ryddhad Gorfodol, **ni fydd** y Cyngor fel arfer yn ystyried dyfarnu rhyddhad 'atodol' Dewisol ychwanegol i'r Elusennau neu'r Clybiau Chwaraeon Amatur Cymunedol hynny sy'n defnyddio safle â gwerth ardrethol o £6,001 neu fwy.
- 4.2 Mewn achosion pan fo talwyr ardrethi yn Elusennau cofrestredig neu wedi eu cofrestru fel Clwb Chwaraeon Amatur Cymunedol ac yn defnyddio safle bach sydd â gwerth ardrethol o £6,000 neu lai, yn ogystal â'r hawl i 80% o Ryddhad Gorfodol, bydd y Cyngor fel arfer yn dyfarnu rhyddhad 'atodol' Dewisol ychwanegol o 20%.
- 4.2 Mewn achosion lle nad yw sefydliadau Gwirfoddol, Clybiau Chwaraeon a sefydliadau 'nid er elw' wedi eu cofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau neu fel Clwb Chwaraeon Amatur Cymunedol, dyfernir Rhyddhad Ardrethi Dewisol ar gyfer y sefydliadau hynny sy'n defnyddio safle â gwerth ardrethol o £6,000 neu lai fel arfer yn flynyddol ar lefel o 100% – ar wahân i glybiau golff, sy'n gallu derbyn dyfarniad blynyddol ar lefel heb fod yn uwch na 40%.
- 4.3 Gall sefydliadau Gwirfoddol, Clybiau Chwaraeon a sefydliadau 'nid er elw' sy'n defnyddio safle â gwerth ardrethol o £6,001 neu fwy dderbyn dyfarniad Rhyddhad Ardrethi Dewisol blynyddol ar lefel nad yw'n uwch nag 80% – ar wahân i glybiau golff, sy'n gallu derbyn dyfarniad blynyddol ar lefel heb fod yn uwch na 40%.
- 4.4 I fod yn gymwys ar gyfer Rhyddhad Ardrethi Dewisol, bydd y talwr ardrethi fel arfer yn glwb / cymdeithas chwaraeon neu Gwmni Buddiannau Cymunedol neu Fenter Gymdeithasol Gofrestredig, sy'n meddiannu safle'n gyfan gwbl neu'n bennaf ac yn ei ddefnyddio at ddibenion haelionus neu grefyddol yn unig, neu'n ymwneud â hamdden,

addysg, lles cymdeithasol, gwyddoniaeth, llenyddiaeth neu gelfyddyd gain.

4.5 Ar gyfer dibenion dyfarnu Rhyddhad Ardrethi Dewisol, ystyrir sefydliadau sydd 'nid er elw' fel y rheiny nad ydynt yn cael eu rhedeg na'u cynnal at ddibenion gwneud elw, ac sy'n defnyddio'r arian sydd ganddynt dros ben i gyflawni ymhellach eu nodau ac amcanion, yn hytrach na dosbarthu incwm i gyfranddalwyr y sefydliadau. Hynny yw, bydd y rhain fel arfer yn sefydliadau sy'n gwasanaethu aelodau neu gymuned.

4.6 Bydd y prawf allweddol ar gyfer canfod a yw sefydliad yn un 'nid er elw' yn canolbwyntio ar a ydyw wirioneddol yn cael ei redeg fel sefydliad 'nid er elw'. Ystyrir y canlynol wrth wneud penderfyniad:

- Asesu'r Memorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu i ganfod y math o sefydliad, a chanfod nad yw er elw a/neu fod ganddo bwrpas cymdeithasol yn gysylltiedig â dibenion elusennol, haelionus neu grefyddol, neu'n ymwneud â hamdden, addysg, lles cymdeithasol, gwyddoniaeth, llenyddiaeth neu gelfyddyd gain – gan sicrhau bod yr elfennau hyn wedi eu hymgorffori i'r ddogfen yn eglur, a'r hyn sy'n digwydd i unrhyw arian dros ben o fasnach.
- Ystyried y cynllun busnes cychwynnol a chyfrifon wedi eu harchwilio i wirio a yw arian dros ben o fasnach yn cael ei ailfuddsoddi bob blwyddyn ar gyfer datblygu ei genhadaeth a phwrpas cymdeithasol.
- Asesu'n flynyddol gyfrifon archwiledig wedi eu cyflwyno, ac unrhyw ddiwygiadau i'r Memorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu i sicrhau bod arian dros ben yn cael ei ddefnyddio fel y nodir yn y Memorandwm ac Erthyglau ac i fonitro neu atal casglu gormod o arian dros ben.

5.0 Rhyddhad Ardrethi Dewisol – sefydliadau eraill sy'n gweithredu'n fasnachol

5.1 Gall y Cyngor hefyd ddarparu rhyddhad dewisol mewn unrhyw amgylchiadau yn unol â Deddf Lleoliaeth 2011. Mae hyn ar yr amod bod y Cyngor, ac eithrio yn yr amgylchiadau cyfyngedig a nodwyd, yn gallu dyfarnu rhyddhad os yw'n rhesymol gwneud hynny yn unig, gan roi ystyriaeth lawn i fuddiannau talwyr treth y cyngor a fyddai yn y pen draw yn ariannu cost lawn darparu rhyddhad ardrethi yn yr amgylchiadau hyn.

5.2 Dyma'r fframwaith a fydd yn cael ei fabwysiadu: bydd Prif Swyddog Cymuned a Menter ac Aelod Cabinet Rheoli Corfforaethol yn ystyried unrhyw geisiadau a dderbynnir ar gyfer gostyngiadau dewisol sydd y tu allan i gwmpas y polisi yn adran 1.03, i'w hystyried yn unigol gan ddefnyddio'r meini prawf canlynol:

- Bydd angen i geisiadau am ostyngiadau fod yn ysgrifenedig, gydag achos busnes llawn a thystiolaeth ddogfennol i ategu'r angen am ryddhad
- Mae cyllid y Cyngor yn caniatáu gwneud gostyngiad
- Mae'n rhaid i ganiatáu'r gostyngiad fod er budd talwyr Treth y Cyngor a budd ehangach y cyhoedd
- Mae pob gostyngiad / rhyddhad cymwys arall wedi ei ystyried cyn ceisio am ryddhad ardrethi dewisol.

6.0 Rhyddhad Ardrethi Dewisol – Busnesau Bach sy'n derbyn Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach

- 6.1 Mae Llywodraeth Cymru yn darparu Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach o 100% i'r rhan fwyaf o fusnesau sydd â gwerth ardrethol o £6,000 neu lai, ac mae'r rheiny sydd â gwerth ardrethol rhwng £6,001 a £12,000 yn derbyn 'rhyddhad graddedig' o 100% i sero, sy'n cael ei ariannu'n gyfan gwbl gan Lywodraeth Cymru.
- 6.2 Mae cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnwys darpariaeth i awdurdodau lleol ddyfarnu rhyddhad 'atodol' dewisol i fusnesau bach nad ydynt yn gymwys ar gyfer gostyngiadau 100% i Ardrethi Busnesau Bach, ond ariennir y gost o ddarparu dyfarniadau 'atodol' i fusnesau bach yn gyfan gwbl gan y Cyngor.
- 6.3 Nid yw fframwaith y polisi'n dyfarnu rhyddhad dewisol 'atodol' ychwanegol y tu hwnt i'r hyn mae busnesau eisoes yn ei dderbyn o ran Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach.

7.0 Ceisiadau am Ryddhad Dewisol

- 7.1 Dylid gwneud ceisiadau am ryddhad yn ysgrifenedig gan ddefnyddio'r ffurflenni penodol sydd ar gael ar wefan y Cyngor. Dylai ceisiadau am Ryddhad Dewisol ddarparu'r wybodaeth ganlynol hefyd:
- Y set ddiweddaraf o Gyfrifon Archwiliedig
 - Copi o gyfansoddiad y sefydliad
 - Tystiolaeth o gofrestrriad fel Clwb Chwaraeon Amatur Cymunedol (os yw'n berthnasol)
 - Ar gyfer sefydliadau sydd wedi eu heithrio rhag cofrestru fel elusen – mae angen tystiolaeth o'r eithriad ar ffurf llythyr gan Gyllid a Thollau Ei Fawrhydi, yn nodi eu bod wedi eu heithrio rhag talu treth o dan A505 Deddf Treth Incwm a Threth Gorfforaeth 1988.
- 7.2 Ystyrir ceisiadau gan Brif Swyddog Cymuned a Menter yn unol â fframwaith y polisi, fel y'i nodir yn y ddogfen hon.
- 7.3 Bydd yr hawl i ryddhad fel arfer yn cychwyn o ddechrau atebolrwydd y talwr ardrethi yn y flwyddyn filio y gwnaed y cais.

8.0 Cyfathrebu ag Ymgeiswyr

- 8.1 Bydd y Cyngor yn hysbysu'r holl ymgeiswyr am ryddhad ynglŷn â'i benderfyniad yn ysgrifenedig.
- 8.2 Pan ddyfernir rhyddhad, bydd yr hysbysiad yn cynnwys:
- Swm y rhyddhad a ddyfernir a dyddiad pan ddaw'r dyfarniad i rym
 - Cyfnod y dyfarniad, os oes cyfyngiad arno
 - Y swm newydd a godir
 - Gofyniad bod yr ymgeisydd yn hysbysu'r Cyngor am unrhyw newid perthnasol mewn amgylchiadau.
- 8.3 Pan fo ceisiadau'n aflwyddiannus bydd y Cyngor yn rhoi eglurhad yng nghyd-destun

ei ddyletswydd statudol er mwyn rhoi gwybod yn iawn i dalwyr ardrethi y rheswm pam mae'r cais yn aflwyddiannus.